Adroddiad At:	Grŵp Llywio Iaith Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod:	9 Gorffennaf 2019
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins
Awdur yr adroddiad:	Gareth Watson, Arweinydd Tim Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
Teitl:	Adroddiad Monitro Iaith Gymraeg y Cyngor

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
   Adroddiad Montro Iaith Gymraeg blynyddol y Cyngor

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
   I drafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad Monitro Iaith Gymraeg blynyddol ar gyfer 2018/19, sydd yn ofyniad statudol.

3. **Beth yw'r argymhellion?**
   I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. **Manylion yr adroddiad**
   Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei wefan, a disgwylir i'r adroddiad fanylu ar y cynnydd a wnaed gyda'r Iaith Gymraeg.

   Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau, i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi adroddiad.

   Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

   Mae'r adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiadau a pherfformiad yn erbyn dangosyddion Iaith Gymraeg yr ydym wedi eu hadrodd yn eu herbyn; camau a gymerwyd gan y Cyngor i gydymffurfio â'r Safonau a gwybodaeth ar lefelau ieithyddol staff.

   Mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar gynnydd gyda'r fframwaith Mwy Na Geiriau a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim cyllid benodol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Daw unrhyw gostau yn syth o gyllidebau sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghori sydd wedi cymryd lle?

Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw enw da'r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy'r Safonau Iaith Gymraeg I hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gweithle ac mewn cymunedau.